CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd

WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE

General Certificate of Secondary Education

217/52

# CYMDEITHASEG

## HAEN UWCH

A.M. DYDD LLUN, 25 Mehefin 2007

(2½ awr)

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfr ateb 12 tudalen.

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Adran A: Atebwch **gwestiwn 1** ac **un** cwestiwn arall.

Adran B: Atebwch **gwestiwn 5** ac **un** cwestiwn arall.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfr ateb a ddarperir ar wahân.

Yn eich ateb dylech, lle mae hynny'n bosibl,

(i) cymharu/cyferbynnu â chymdeithasau/diwylliannau eraill,
(ii) cyfeirio at sefyllfaoedd yn eich bywyd chi neu eich amgylchfyd cymdeithasol lleol,
(iii) defnyddio enghreifftiau i egluro eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Dangosir nifer y marciau mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Cewch farciau am gywirdeb sillafu, atalnodi a gramadeg.

## ADRAN A

*Atebwch* **Gwestiwn 1** *ac* **un** *cwestiwn arall o'r adran hon.*

**1.** Edrychwch ar ffynonellau **A** a **B** ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

### Ffynhonnell A

Edrychwch ar yr erthygl isod a gyhoeddwyd yng nghylchgrawn y ***Sunday Express*** ym mis Mehefin 2006.



Mae Sean Baird, 48, a'i wraig, Donna, 44, yn byw yn Nwyrain Sussex gyda'u plant Jack, sy'n naw oed, a Katie, sy'n saith oed. Mae Donna yn rheoli uned ar gyfer plant ag anghenion arbennig ac mae Sean wedi bod yn dad amser llawn ers i Jack gael ei eni.

Yng ngeiriau Sean, 'Roeddwn i'n arfer gweithio fel saer coed ar safleoedd adeiladu, felly roedd y newid i fod yn dad fyddai'n aros gartref yn newid mawr iawn, ac i ddechrau roeddwn i'n nerfus iawn amdano. Ond hyd yn oed cyn i ni gael plant, roedd Donna a minnau'n arfer rhannu'r gwaith tŷ bron yn gyfartal. Roedden ni'n bartneriaid bob amser ac yn gwneud pethau gyda'n gilydd.

'Byddai Donna'n wir wedi hoffi bod yn fam amser llawn ond gwnaethon ni benderfynu bod ei rhagolygon hi am yrfa *(career prospects)* yn well, felly y dylai hi aros yn y gwaith. I ddechrau, roedd yn teimlo'n rhyfedd i fod yn aros gartref.

'Aeth ffrind â mi i glwb un o'r gloch, ac roedd hynny'n fy nghadw'n gall. Roeddwn i'n mynd yno bron bob dydd, a thra byddai Jack a Katie yn chwarae a dysgu cydgymysgu â phlant eraill, roeddwn i'n gallu siarad ag oedolion am bethau normal. A bod yn onest, roedd yn braf i mi gael newid dull o fyw ar ôl blynyddoedd o fynd i safleoedd adeiladu ofnadwy bob dydd.

'Pan symudon ni i Sussex bum mlynedd yn ôl, gwelais mai fi oedd yr unig ddyn yn y grŵp rhiant a phlentyn. Roedd y mamau eraill yn groesawgar iawn, ond gofynnodd un i mi'n uniongyrchol iawn beth roeddwn i'n ei wneud mewn lle felly gyda'r holl fenywod hynny.

'Mae fy mywyd heddiw yn wahanol iawn i fywyd fy nhad – roedd e'n gweithio i ffwrdd llawer, ar y môr. Doedden ni ddim yn ei weld am chwe wythnos ar y tro. Roedd y cyffro pan fyddai e'n dod adref yn wych. Rwy'n ei gofio o hyd.'

*Ffynhonnell: addasiad o gylchgrawn y* ***Sunday Express*** *(18 Mehefin 2006)*

**Ffynhonnell B**





Mae plant yn cael eu geni gyda **rhyw biolegol**. Er hynny, addysgir eu **rolau rhywedd** *(gender roles)* i blant mewn nifer o ffyrdd. Gall hynny fod trwy gyfrwng teganau neu drwy wylio eu rhieni.

Edrychwch ar **Ffynhonnell A**.

*(a)* Pam y dewisodd Sean aros gartref i ofalu am y plant wedi iddynt gael eu geni? [1]

*(b)* Pa waith y mae Donna yn ei wneud? [1]

*(c)* Eglurwch **un** rheswm pam mae'n bwysig i blant chwarae â phlant eraill o'r un oedran. [2]

*(ch)* Pa dystiolaeth yn y darn sy'n awgrymu ei fod yn anarferol i ddynion ofalu am eu plant yn amser llawn? [2]

Edrychwch ar **Ffynhonnell B**.

*(d)* Pa deganau sy'n cael eu gweld fel rhai gwrywaidd fel rheol? [1]

*(dd)* Eglurwch ystyr y term **rhyw biolegol**. [1]

*(e)* Gan ddefnyddio enghraifft, eglurwch ystyr y term **rôl rhywedd**. [2]

Gan ddefnyddio'r **ddwy ffynhonnell** a'r **hyn rydych chi'n ei wybod**, atebwch y cwestiynau canlynol.


*(f)* Eglurwch **ddwy ffordd** o addysgu eu rolau rhywedd i blant. [4]

*(ff)* Gan roi enghreifftiau, eglurwch **un** ffordd rydym yn gwybod nad yw rolau rhywedd yr un fath ym mhob cymdeithas. [2]

*(g)* Awgrymwch resymau **pam** y gall rolau rhywedd fod wedi newid ym Mhrydain yn y blynyddoedd ddiweddar. [4]

**2. Y Teulu**

**Tueddiadau Cymeithasol**




*Ffynhonnell:* ***Social Trends*** *(2006)*

Erbyn hyn mae pobl yn priodi'n hŷn nag yr oeddynt 40 mlynedd yn ôl.

Yr oedran cyfartalog ar gyfer priodasau cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2004 oedd 31 ar gyfer dynion a 29 ar gyfer menywod. Mae hynny'n cymharu â 25 ar gyfer dynion a 23 ar gyfer menywod 40 mlynedd yn ôl.

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch ystyr **ailbriodas**. [2]

*(b)* Eglurwch pam mae **cyfraddau priodas** wedi newid. [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno pam mae pobl bellach yn dewis priodi'n ddiweddarach yn eu bywyd. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch pa ffactorau cymdeithasol sydd wedi dylanwadu ar y newidiadau yn y cyfraddau ysgariad ers 1945. [10]

**3. Addysg**

**Addysg a hyfforddiant**

Mae merched yn llwyddo i ennill mwy o raddau TGAU na bechgyn. Mae'r bwlch yn fwy ar gyfer graddau uwch. Yn y blynyddoedd 2003/04 roedd y canlyniadau'n dangos bod 57% o ferched a 46% o fechgyn wedi ennill pump neu fwy o raddau A*– C.

Mae **gwahaniaethau rhywedd** *(gender differences)* yn y dewis o bynciau. Yn yr arholiadau Safon Uwch, mae mwy o ferched nag o fechgyn yn astudio Cymraeg, Llenyddiaeth Saesneg, a Ffrangeg, ond mae mwy o fechgyn nag o ferched yn astudio mathemateg, ffiseg ac economeg.

**Disgyblion sy'n ennill y graddau canlynol mewn arholiadau TGAU**

| | **Merched %** | **Bechgyn %** |
|---|---|---|
| 5 neu fwy o raddau A*– C | 57 | 46 |
| 1-4 gradd A*– C | 23 | 25 |
| 1 neu fwy o raddau D – G | 14 | 20 |
| Ennill dim graddau TGAU | 6 | 9 |

*Ffynhonnell: addasiad o wefan y Comisiwn Cyfle Cyfartal*

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch ystyr y term **gwahaniaethau rhywedd**. [2]

*(b)* Eglurwch ystyr y **cwricwlwm cudd**. [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno pam mae merched yn ennill canlyniadau gwell na bechgyn mewn arholiadau TGAU. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch pa ffactorau cymdeithasol a all effeithio ar ganlyniadau plant yn yr arholiadau TGAU. [10]

**4. Gwaith a Diweithdra**

**Yn eisiau**

**Dirprwy Reolwr - Barrau - Minehead - £22,000**

Ar hyn o bryd rydym eisiau **cyflogi** Dirprwy Reolwr ar gyfer bar hwyrol a chyrchfan fywiog gyda gwerthiant bwyd sylweddol yn Minehead, gyda chyflog hyd at £22,000, yn dibynnu ar brofiad.

Y gyrchfan hon yn wir yw'r bar mwyaf ffasiynol yn y dref yn dilyn gwaith adnewyddu gwerth £500,000.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus bersonoliaeth gref a sgiliau addysgol a rheoli rhagorol.

Cyflog: £18,000 - £22,000 • Lleoliad: Gwlad yr Haf • Dyddiad: 7 Awst 2007 • Math o gyflogwr: Tafarn •

Recriwtiwr: Charles Renton

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch ystyr y term **cyflogi**. [2]

*(b)* Eglurwch ystyr y term **gwaith**. [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno pam mae pobl yn gweithio. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch sut mae natur gwaith wedi newid yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. [10]

**TUDALEN WAG**

## ADRAN B

*Atebwch* **Gwestiwn 5** *ac* **un** *cwestiwn arall o'r adran hon.*

**5.** Edrychwch ar ffynonellau **C** ac **CH** ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Ffynhonnell C**

**Menywod 'yn sownd' mewn swyddi â chyflog is**



Yn ôl canlyniadau Cyfrifiad 2001, mae eu rhyw yn parhau i ddylanwadu'n drwm ar fywyd dynion a menywod ym myd gwaith.

Yn ôl data'r cyfrifiad am batrymau gwaith, mae nifer sylweddol o fenywod i'w gael o hyd mewn swyddi â chyflog is a gwaith rhan-amser. Maent yn gweithio 31.4 awr yr wythnos ar gyfartaledd.

Dywedodd ymgyrchwyr o blaid cydraddoldeb fod y ffigurau'n cadarnhau bod angen gwneud llawer mwy o waith i helpu menywod i wella eu cyfleoedd yn y gweithle.

Yn rhai rhannau o'r wlad – yn enwedig Ynysoedd Sili a rhannau o ddwyrain Llundain – roedd yn ymddangos bod cyfleoedd da gan fenywod i ddod yn rheolwyr neu'n weithwyr proffesiynol. Ond roedd y darlun yn wahanol iawn yn y sectorau gwasanaeth a gweinyddiaeth.

Roedd **stereoteipiau** yn dal yn gryf mewn llawer sector o fyd gwaith. 'Fe ddylai ein system addysg herio syniadau hen ffasiwn am rolau menywod a dynion,' meddai Julie Mellor o'r Comisiwn Cyfle Cyfartal. 'Fe ddylai Prydain weithredu ar fwy nag un ffrynt er mwyn sicrhau'r un **siawnsiau bywyd** i fenywod a dynion.'

Ar gyfartaledd, menywod yw 84% o'r rhai sy'n gweithio mewn swyddi gwasanaeth personol, megis cynorthwywyr gofal, gwarchodwyr plant a thrinwyr gwallt. Mae cymaint â 78% o'r bobl sy'n gwneud gwaith gweinyddol ac ysgrifenyddol yn fenywod, ynghyd â 71% o staff gwerthu a gwasanaeth i gwsmeriaid.

Dynion yw 91% o'r rhai sy'n gweithio mewn swyddi gwaith llaw medrus, megis mecanyddion, bricwyr a thrydanwyr, er enghraifft. Dynion yw 83% o'r gweithwyr cynhyrchu a'r rhai sy'n trin offer a pheiriannau, a hwy hefyd sy'n dal 66% o swyddi proffesiynol, rheolwyr ac uwch swyddogion.

*Ffynhonnell: addasiad o wefan y BBC http://bbc.co.uk/news*

**Ffynhonnell CH**

**Y deg swydd â'r cyflog isaf ym Mhrydain**

| **Y gweithwyr sydd â'r cyflog isaf** | **Gwaith amser llawn – tâl wythnosol cyfartalog (£)** |
|---|---|
| Llenwyr silffoedd | 241.5 |
| Gweithredwyr peiriannau gwnïo | 239.8 |
| Gofalwyr anifeiliaid | 232.3 |
| Trinwyr gwallt, barbwyr | 231.8 |
| Porthorion gwesty | 229.9 |
| Cynorthwywyr cegin | 228.4 |
| Gweinyddion, gweinyddesau | 218.2 |
| Staff bar | 217.9 |
| Sychlanhawyr | 217.6 |
| Gweithwyr desg dalu | 207.6 |

Mae llawer o'r swyddi uchod yn cael eu galw'n waith llafur ysbeidiol *(casual labour)*. Mae pobl yn tueddu i beidio ag aros yn hir yn y math hwn o waith oherwydd bod yr amodau gwaith yn wael a'r oriau'n hir. Yr isafwm cyflog neu'n agos at hynny yw'r tâl fel rheol, ond wedi tynnu ataliadau *(stoppages)* bydd y tâl wrth yr awr yn mynd yn is na'r isafswm cyfreithlon. Weithiau fe delir am y math hwn o waith ag arian mewn llaw *(cash in hand)*, fel nad yw'r cyflogwr na'r gweithiwr yn talu trethi.

Gall sgil ac weithiau bersonoliaeth ddymunol fod yn ofynnol ar gyfer y swyddi hyn, ond does dim angen lefel uchel o sgiliau addysgol ar bobl. Mae llawer o'r swyddi hyn yn waith rhan-amser neu'n swyddi a wneir yn draddodiadol gan fenywod.

Gan ddefnyddio **Ffynhonnell C**, atebwch y cwestiynau canlynol.

*(a)* Pa ryw sydd fwyaf tebygol o fod mewn swydd â chyflog isel? [1]

*(b)* Sawl awr yr wythnos mae menywod yn gweithio ar gyfartaledd? [1]

*(c)* Rhowch **ddwy** enghraifft o'r math o waith sy'n cael ei ystyried fel rheol yn 'swydd fenywaidd'. [1]

*(ch)* Pa ganran o'r gweithwyr mewn swyddi gwaith llaw medrus sy'n fenywod? [1]

*(d)* Gan roi enghreifftiau, eglurwch ystyr y term **siawnsiau bywyd**. [2]

*(dd)* Gan roi enghreifftiau perthnasol, eglurwch ystyr y term **stereoteipiau**. [2]

Gan ddefnyddio **Ffynhonnell CH**, atebwch y cwestiynau canlynol.

*(e)* Pa swydd sydd â'r cyflog isaf ym Mhrydain ar gyfartaledd? [1]

*(f)* Beth yw'r cyflog cyfartalog wythnosol ar gyfer gweithredwr peiriant gwnïo? [1]

*(ff)* Awgrymwch resymau pam y gall menywod fod yn fodlon derbyn gwaith rhan-amser ar gyflog isel. [2]

*(g)* Eglurwch pam mae gwaith ysbeidiol *(casual)* yn tueddu i fod â chyflog isel. [2]

Gan ddefnyddio'r **ddwy ffynhonnell** a'r **hyn rydych chi'n ei wybod**, atebwch y cwestiynau canlynol.

*(ng)* Eglurwch pam mae enillion cyfartalog gweithwyr medrus yn uwch na chyflogau gweithwyr di-grefft *(unskilled)*. [2]

*(h)* Gan ddefnyddio eich gwybodaeth gymdeithasegol ehangach, awgrymwch resymau pam mae mwy o fenywod bellach mewn swyddi â chyflog da na'r hyn oedd 50 mlynedd yn ôl. [4]



**Trosodd.**

## 6. Dosbarth Cymdeithasol



**Mae dosbarth cymdeithasol rhieni yn effeithio ar fywydau eu plant**

Cynhaliwyd arolwg ymysg dynion 23-26 gydag un o'u rhieni'n perthyn i'r dosbarthiadau cymdeithasol uchaf (**proffesiynol** a rheolaethol). Yn ôl yr arolwg, roedd 43% ohonynt wedi ennill cymhwyster addysg uwch. O blith y rhai ag un rhiant yn perthyn i un o'r ddau ddosbarth cymdeithasol isaf (gwaith lled fedrus a di-grefft), 14% yn unig a gyrhaeddodd yr un safon o addysg.

Dywedodd yr Athro Anthony Heath, pennaeth yr Adran Gymdeithaseg ym Mhrifysgol Rhydychen, mai lefel 'ganolig' o **symudedd** *(mobility)* **cymdeithasol** sydd ym Mhrydain, o'i chymharu â gwledydd cyfoethog eraill megis yr UD, Canada a Sweden, lle mae lefelau uwch o symudedd rhwng y dosbarthiadau.

'Ond rhaid i ni beidio â thynnu darlun rhy ddu,' ychwanegodd. 'Mae uchelgais a phersonoliaethau pobl yn bwysig iawn, a mater o wneud dewisiadau ydyw i ryw raddau. Mae llawer o rieni o'r dosbarth gweithiol yn awyddus i'w plant wneud yn well.'

*Ffynhonnell: addasiad o wefan y BBC http://bbc.co.uk/news*

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch ystyr y term **proffesiynol**. [2]

*(b)* Eglurwch y berthynas rhwng dosbarth cymdeithasol a chyrhaeddiad addysgol. [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno ystyr **symudedd cymdeithasol**. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch sut y gall dosbarth cymdeithasol effeithio ar siawnsiau bywyd ym Mhrydain. [10]

**7. Cyfranogaeth a Phrotest**



**Etholiadau Cyffredinol**

Bydd etholiad cyffredinol yn digwydd pan fydd pobl o bob rhan o'r wlad yn pleidleisio i ethol eu Haelod Seneddol. Pan fydd etholiad yn digwydd, bydd pob sedd yn Nhŷ'r Cyffredin yn agored i'w hennill yn yr etholiad.

Mae'r DU wedi'i rhannu yn 646 o ranbarthau, neu etholaethau fel y'i gelwir, a bydd pob un ohonynt yn ethol un person i eistedd fel **Aelod Seneddol (AS)**. Gall pob etholwr fwrw un bleidlais a'r person sydd â'r mwyaf o bleidleisiau yn yr etholaeth sy'n dod yn AS.

Y blaid sydd â'r nifer mwyaf o ASau sy'n ffurfio'r llywodraeth, ac arweinydd y **blaid wleidyddol** sydd â'r nifer mwyaf o ASau sy'n dod yn Brif Weinidog. Yn 1997, Llafur a etholwyd a Tony Blair a ddaeth yn Brif Weinidog.

*Ffynhonnell: addasiad o* ***Inside Britain: A Guide to the UK Constitution****, gan y Citizenship Foundation. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd caredig John Murray (Publishers) Cyf.*

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch ystyr y term **Aelod Seneddol**. [2]

*(b)* Eglurwch ystyr y term **plaid wleidyddol**. [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno ystyr y term **democratiaeth**. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol ac enghreifftiau, eglurwch y ffactorau cymdeithasol a all ddylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn dewis pleidleisio. [10]



**Trosodd.**

## 8. Trosedd a Gwyredd




Mae'r heddlu wedi dechrau ar ymgyrch yr haf yn erbyn ieuenctid **gwrthgymdeithasol** a fu'n achosi problemau yn Berkshire.

Dywedodd yr heddlu fod grwpiau o bobl ifanc wedi bod yn yfed, yn defnyddio iaith ddifrïol, yn codi ofn ar bobl ac wedi achosi difrod troseddol yn ardal Bracknell Forest.

Mae'r ieuenctid hefyd wedi bod yn ymgasglu y tu allan i siopau gan ofyn i oedolion brynu alcohol a sigaréts iddynt.

Mae swyddogion yn defnyddio rhybuddion ar y stryd, hysbysiadau cosb benodedig *(fixed penalty notices)* ac arestiadau i ddelio ag ymddygiad sy'n achosi niwsans.

Lansiwyd Cynllun Lascar y mis diwethaf a dywedodd yr heddlu eu bod eisoes wedi arestio un person ac wedi cymryd meddiant o 73 o boteli a chaniau oddi ar ieuenctid dan oed yn South Hill Park.

Dywedodd y Sarsiant Graham Thorne: 'Mae'r neges yn glir – os ydych chi'n bwriadu ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol neu gyflawni trosedd, peidiwch â dod i ardal Bracknell Forest.'

'Os ydych yn penderfynu peidio â chymryd y cyngor hwn ac yna'n cyflawni trosedd, gallwch ddisgwyl y byddwn ni'n delio â chi.'

*Ffynhonnell: addasiad o wefan y BBC http://bbc.co.uk/news*

*(a)* Gan ddefnyddio'r ffynhonnell uchod, eglurwch beth mae'r heddlu'n ei wneud i atal troseddu gan bobl ifanc. [2]

*(b)* Eglurwch ystyr y term **gorchymyn ymddygiad gwrthgymdeithasol *(ASBO)*.** [3]

*(c)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch yn gryno pam mae pobl ifanc yn fwy tebygol na phobl hŷn o'u cael yn euog *(to be convicted)* o drosedd. [5]

*(ch)* Gan ddefnyddio gwybodaeth gymdeithasegol, eglurwch pam mae dynion yn fwy tebygol na menywod o'u cael yn euog o drosedd. [10]